**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**19 EBRILL 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 19 Ebrill 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Andy Williams, ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON**: Y Cynghorydd Mike Peers yn lle'r Cynghorydd Bob Connah

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorwyr Mike Lowe a Vicky Perfect

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge ac Andy Dunbobbin. Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid; Aelod Cabinet Rheoli ac Asedau Corfforaethol, y Prif Weithredwr; y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol, a'r Rheolwr Cyllid.

**YN BRESENNOL:** Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, adroddwyd y bu farw mam y Cynghorydd Bob Connah a chytunwyd y byddid yn anfon llythyr o gydymdeimlad ar ran y Pwyllgor.

## 78. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd unrhyw rai.

## 79. COFNODION

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018.

Materion yn codi:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at drafodaethau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LlC) ynghylch dyfodol pont Sir y Fflint a materion eraill yn ymwneud â ffyrdd, a gofynnodd a oedd unrhyw newydd. Eglurodd y Prif Weithredwr bod sawl trafodaeth yn parhau ac y byddid yn darparu diweddariad yn y man.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom hefyd at y cais y dylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad yn amlinellu effeithiau'r gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo) a dywedwyd y byddai hwn ar gael ar gyfer cyfarfod mis Ebrill.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y byddid yn darparu adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at ansawdd gwaith atgyweirio'r tyllau mewn lonydd gan godi pryderon nad oeddid yn cyflawni gwerth am arian. Eglurodd y Prif Weithredwr bod rhagor o dimau'n gweithio ar hyn gyda phwyslais ar dorri allan a llenwi. Dywedodd nad oedd gwaith gwael yn dderbyniol ac y dylid adrodd ynghylch unrhyw enghreifftiau i'w harchwilio gan y gwasanaeth Strydlun.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley hefyd at leoliadau y tu allan i'r sir a chostau cysylltiedig, a gofynnodd a oedd y Cyngor yn lobïo LlC i fynd i'r afael ag anghenion o ran cyllid. Dywedodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau adeiladol yn cael eu cynnal gyda LlC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac roedd y mater o gyllid a'r angen am ddarpariaeth a datrysiadau mwy rhanbarthol yn bwynt lobïo cryf. Cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton hefyd at drafodaethau parhaus gyda CLlLC a dywedodd fod yr egwyddor o ragor o gyllid yn fater allweddol. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai hon fod yn eitem ar yr agenda i'w hystyried yng nghyd-gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sydd i'w gynnal ar 24 Mai 2018 os nad oedd wedi'i nodi'n flaenorol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at yr angen i LlC ddarparu cyllid ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a lleoliadau y tu allan i'r sir yn fater cenedlaethol ac nid lleol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones hefyd at ei sylwadau mewn cyfarfodydd blaenorol ac y dylai datblygwyr dalu costau rheoli plâu pan fo gwaith adeiladu datblygiadau newydd yn symud llygod mawr o safleoedd adeiladu, a dywedodd y gellid cyflawni hyn drwy gyllid Cytundeb Adran 106. Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton bod y mater o ffioedd rheoli plâu wedi'i godi yn y gweithdy Cynhyrchu Incwm y diwrnod cynt.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnodion cywir.

## 80. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG - RHAGOLWG 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yr adroddiad i ddarparu diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) – Rhagolwg 2019/20. Darparodd wybodaeth gefndir ac eglurodd bod yr adroddiad Cabinet oedd wedi'i atodi yn darparu'r trosolwg manwl cyntaf o'r rhagolwg ariannol ar gyfer 2019/20, gyda gwaith pellach ar y rhagolygon hyd at 2021/22 i ddilyn. Adroddodd ar y prif ystyriaethau y manylwyd yn eu cylch yn yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y bwlch posibl mewn cyllid o £10.6m ar gyfer 2019/20 yn parhau i fod yn her, a chyfeiriodd at yr opsiynau cyfyngedig ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch hwn. Cyfeiriodd at y dyfarniad cyflog ar gyfer athrawon a dywedodd y byddai adroddiad llawn ar effaith modelu tâl yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin. Dywedodd fod angen annog trafodaeth o ddifrif ar lefel genedlaethol ynghylch cyllid ar gyfer Addysg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at gostau gofal cartref ar gyfer cleifion sy'n derfynol wael, a gofynodd faint o ddefnyddwyr gwasanaeth a effeithiwyd. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n mynd ar drywydd y wybodaeth hon gyda'r Uwch Reolwr – Gwasanaethau Integredig Oedolion Arweiniol.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Patrick Heesom ar effaith y dyfarniad cyflog athrawon a'r angen i wneud sylwadau'n gynnar, cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at yr ymrwymiad gan benaethiaid a chyrff llywodraethu. Dywedodd fod trafodaethau o ddifrif yn parhau. Gwnaed sylwadau hefyd gan undebau athrawon sy'n ceisio cyfleoedd i ddechrau lobïo. Roedd yn cydnabod fod Addysg yn faes pwysau cenedlaethol allweddol.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers bod diffyg manylion yn yr adroddiad ynghylch y gofyniad o ran gwariant a'r angen i'w adolygu. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr angen am fanylion ynghylch y gwariant sy'n cael ei ddyrannu i bortffolios.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson bod monitro canlyniadau effaith newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth ar breswylwyr Sir y Fflint, ac ar y cymunedau tlotaf yn enwedig, yn bwysig. Gofynnodd p'un a oedd asesiadau effaith yn cael eu gwneud. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai asesiad effaith yn ymarfer defnyddiol ac eglurodd bod eitem ar y model asesu effaith integredig a'i ddefnydd wedi'i chynnwys yn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer y Pwyllgor.

Wrth grynhoi'r drafodaeth, gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd p'un a oedd y Pwyllgor yn dymuno codi ei bryderon ynghylch effaith bosibl y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cymunedau tlotaf yn Sir y Fflint. Cytunodd y Pwyllgor i hyn. Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am gael cofnodi ei fod wedi atal ei bleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor am hysbysu'r Cabinet ei fod wedi nodi Adroddiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) – Rhagolwg 2019/20 a'i fod yn codi pryderon penodol ynghylch ei effaith bosibl ar y cymunedau tlotaf yn Sir y Fflint.

## 81. ADRODD AR FUDDSODDIADAU MEWN TREFI SIROL

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar fuddsoddiad yn nhrefi Sirol Sir y Fflint a sut y gellir datblygu hyn. Darparodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd fod yr adroddiad yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o Rybudd o Gynnig yn y Cyngor Sir yn Rhagfyr 2017, a byddai'r adroddiad sy'n adrodd ar rai mathau o wariant yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant fesul tref. Roedd yr adroddiad yn awgrymu sail ar gyfer diffiniad o 'dref' i'r pwrpas hwn yn unig ac

roedd yn nodi meysydd gwariant o fewn rhaglen gyfalaf 2018/19 y byddid yn eu cynnwys yn y broses adrodd wrth egluro rhai o'r anawsterau o ran cael y wybodaeth. Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar y prif ystyriaethau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Mynegodd y Cynghorydd Richard Jones bryder nad oedd yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth yr oedd wedi gofyn amdani, a phwysleisiodd bwysigrwydd nodi'r gwariant ar bob tref a'r angen i sicrhau bod pob tref yn cael ei thrin yn gyfartal. Gofynnodd am fanylion ar y gwariant y pen er mwyn deall sut yr oedd y cyllid yn cael ei gyfansymio rhwng trefi a lle'r oedd yn cael ei wario.

Roedd y Cynghorydd Aaron Shotton yn cefnogi'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Jones ac awgrymodd y dylid cyfeirio'r mater i'w ystyried gan y Cabinet hefyd. Rhoddodd sicrwydd mai drafft cyntaf o waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ydyw, ac y byddai rhagor o fanylion yn dilyn.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Johnson nad oedd yr adroddiad yn darparu diffiniad o 'teg' ac 'angen' a nododd fod angen edrych ar gymunedau ar sail 'angen' a'r hyn a ddiffiniwyd fel 'dyraniad teg' i ddiwallu'r angen hwnnw.

Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod angen gwneud mwy o waith yng nghyswllt diffinio'r 'trefi sirol' y cyfeiriwyd atynt yn y rhybudd o gynnig. Eglurodd nad oedd un diffiniad penodol a dywedodd y dylai'r adroddiad ddangos yn lle mae'r Cyngor yn gwario arian a pham. Cytunwyd y byddai gweithdy pellach i Aelodau ar y Bid Twf yn cael ei drefnu, ac y byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor sydd i'w gynnal ym mis Mehefin.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at y frawddeg gyntaf ym mharagraff 1.02 o'r adroddiad ac awgrymodd y dylid defnyddio'r gair 'accurate' yn lle 'easily'.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r sylwadau a wnaed ac yn disgwyl am yr adroddiad pellach.

## 82. STRATEGAETH HYRWYDDO'R GYMRAEG DRAFFT

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer Strategaeth Bum Mlynedd Ddrafft i Hyrwyddo'r Gymraeg a fydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol.

Darparodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndirol a dywedodd fod Sir y Fflint yn awdurdod eithriadol yn nhermau ei ymrwymiad i'r Gymraeg. Cyfeiriodd at y prif ystyriaethau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad gan wahodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol i ddarparu rhagor o wybodaeth. Eglurodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y byddai'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn cyfrannu at Gynllun Llesiant y Cyngor, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015, ynghyd â nod Llywodraeth Cymru i ddarparu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Cyfeiriodd at y broses ymgynghori a fyddai'n cael ei chynnal ym Mai

2018, ac eglurodd y bydd y Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yng Ngorffennaf 2018 i'w chymeradwyo cyn ei chyhoeddi a'i gweithredu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 5-20 mlwydd oed, fel y nodir yn nhabl 2, ar dudalen 62 o'r adroddiad. Awgrymodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y gall hyn fod oherwydd nad oedd rhai pobl ifanc yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl gadael ysgol.

Siaradodd y Cynghorydd Billy Mullin am Strategaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni un filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, a chyfeiriodd at y gwaith ardderchog a wnaed gan ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cael eglurhad am y data a ddarparwyd yn nhabl 3, tudalen 63 yn yr adroddiad. Eglurodd y Prif Weithredwr y cafwyd y wybodaeth o ddata'r cyfrifiad a chytunodd i adolygu sut yr oedd cwestiynau'r cyfrifiad wedi'u trefnu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at nod y Strategaeth ddrafft. Gofynnodd am ddadansoddiad o ganran yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, yr ysgolion cynradd, ac aelodau'r cyhoedd. Cyfeiriodd hefyd at nifer y disgyblion ysgol gynradd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, a gofynnodd p'un a fyddai hyn yn cyflawni'r targed dros y pum mlynedd nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at gyfleoedd addysgol, cyfyngiadau amser a'r gobeithion i'r dyfodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill a oedd cyllid ar gael i gefnogi mentrau yn y gymuned i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Eglurodd y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol nad oedd yr Awdurdod yn gallu ariannu prosiectau cymunedol o'r fath o gronfeydd y Cyngor. Fodd bynnag, gall fod cyfle i ymgeisio am grant o gronfa'r Gist Gymunedol. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd bod cyfle i gynghorau lleol 'drefnu eu hunain' i gefnogi menter gymdeithasol leol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Cunningham at yr angen i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol yn Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD**:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Strategaeth Bum Mlynedd Ddrafft i Hyrwyddo'r Gymraeg.

## 83. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN Y CYNGOR

Darparodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar Gynllun y Cyngor 2018/19. Eglurodd bod y Cynllun yn cael ei adolygu i adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor ac y byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Ebrill 2018.

Roedd gweithdy i'r holl Aelodau i'w gynnal ar 29 Mai, pryd y byddai cynnwys y Cynllun drafft yn cael ei rannu, ynghyd â meysydd targed allweddol ar

gyfer mesurau cenedlaethol. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai adborth ffurfiol yn cael ei ystyried gan gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol sydd i'w gynnal ar 4 Mehefin.

Byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno wedyn i'r Cabinet a'r Cyngor Sir ar 19 Mehefin. Eglurodd y Prif Weithredwr bod integreiddio blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant yr oedd y Cyngor yn gyfrifol am arwain arnynt wedi'u cysoni o fewn Cynllun y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

Nodi'r diweddariad llafar.

## 84. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 11)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad ar gyfer darparu adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 yn ôl y sefyllfa ym Mis 11. Eglurodd y byddai Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 24 Ebrill 2018, ac roedd copi wedi'i atodi i'r adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid fod yr adroddiad misol yn darparu'r sefyllfa bresennol o ran monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 ar gyfer Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol, ar gyfer Mis 11 o'r flwyddyn ariannol, ac yn rhagamcanu sut y byddai'r gyllideb yn sefyll ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pe na bai unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl arwyddocaol.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y brif sefyllfa a ragamcanwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Adroddodd hefyd ar y prif ystyriaethau o ran y sefyllfa ym Mis 11, a chyfeiriodd at sefyllfa gyffredinol Cronfa'r Cyngor, y rhagolwg diweddaraf yn ystod y flwyddyn, gwaith cynnal a chadw'r gaeaf, chwyddiant, cronfeydd a balansau, a cheisiadau i gario cyllid ymlaen.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid, o ran Cronfa'r Cyngor, fod y sefyllfa gyffredinol a ragamcanir yn ystod y flwyddyn bellach yn cynnwys £1.422m, oherwydd y newid mewn polisi cyfrifyddu ar gyfer ffioedd yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP), fel y cytunwyd gan y Cyngor Sir ar 1 Mawrth. Cafodd hyn yr effaith o ddileu'r diffyg gweithredol gyda'r gwariant net wedi'i ragamcanu i fod yn £1.531m yn llai na'r gyllideb. Balans y Gronfa Hapddigwyddiad Rhagamcanol ar 31 Mawrth oedd £8.353m, er ei bod wedi gostwng i £5.948m wrth ystyried cyfraniadau a gytunwyd ar gyfer cyllideb 2018/19. Adroddodd y Rheolwr Cyllid, ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, y rhagamcanwyd y byddai gwariant net y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn yn £0.035m yn uwch na'r gyllideb, a'r balans adeg cau ar 31 Mawrth 2018 oedd £1.081m.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyhoeddiad LIC ynghylch y tanwariant hwyr, a gofynnodd a oedd CLlLC am wneud cais i LIC am ddyraniad ychwanegol o'r tanwariant ar gyfer gwasanaethau cynnal a chadw yn y gaeaf.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 Mis 11 ac yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion yr oedd yn dymuno eu dwyn i sylw'r Cabinet ar hyn o bryd.

## 85. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol a oedd wedi'i hadolygu a'i diwygio yn y sesiwn anffurfiol cyn y cyfarfod. Dywedodd y byddai'r eitemau a ganlyn yn cael eu cyflwyno i'w hystyried hefyd:

- adroddiad ariannol ar gyfalaf i gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mai
- adroddiad ar fuddsoddiadau mewn trefi sirol ynghyd ag adroddiad ar fodelu tâl i gyfarfod y Pwyllgor sydd i'w gynnal ar 14 Mehefin.

Cytunwyd i gymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y'i diwygiwyd yn y sesiwn anffurfiol yn gynharach yn y dydd, ynghyd â'r eitemau ychwanegol uchod. Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr Aelodau y byddid yn cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar Fehefin 4 i ystyried adborth ar Gynllun y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd yn y sesiwn anffurfiol yn gynharach yn y dydd;

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democratig, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yn cael eu hawdurdodi i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng y cyfarfodydd, pe bai angen gwneud hyn; ac

(c) Y bydd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol yn cael ei hystyried ar ddechrau, yn hytrach nag ar ddiwedd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol.

## 86. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg a dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.15 pm)

..................................................

**Cadeirydd**